OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 Rhif 198 (Cy. 46)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

Mae adran 144B o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.

Mae adran 166(1)(b) o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud trefniadau partneriaeth penodedig yn ofynnol rhwng un neu ragor o awdurdodau lleol ac un neu ragor o Fyrddau Iechyd Lleol. Mae adran 166(4)(a) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol gyflawni swyddogaethau a bennir at ddibenion adran 166(2), megis swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, at ddibenion trefniadau partneriaeth. Mae adran 168 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i fwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â threfniadau partneriaeth a wneir o dan reoliadau o dan adran 168(1)(c) gael ei sefydlu gan un neu ragor o awdurdodau lleol ac un neu ragor o Fyrddau Iechyd Lleol. O dan adran 168(2)(c), caiff y rheoliadau hynny wneud darpariaeth ynghylch amcanion a swyddogaethau'r bwrdd partneriaeth.

# 2021 No. 198 (W. 46)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Partnership Arrangements (Amendment) and Regulated Services (Market Stability Reports) (Wales) Regulations 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under powers given to the Welsh Ministers by the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the Act") in relation to local market stability reports.

Section 144B of the Act gives the Welsh Ministers the power to make regulations in relation to market stability reports.

Section 166(1)(b) of the Act gives the Welsh Ministers the power to require specified partnership arrangements between one or more local authorities and one or more Local Health Boards. Section 166(4)(a) gives the Welsh Ministers the power to require a local authority or a Local Health Board to carry out functions specified for the purposes of section 166(2), such as social services functions, for the purposes of partnership arrangements. Section 168 of the Act gives the Welsh Ministers the power to require a partnership board in respect of partnership arrangements made under regulations under section 168(1)(c) to be established by one or more local authorities and one or more Local Health Boards. Under section 168(2)(c) those regulations may make provision about the objectives and functions of the partnership board.

Mae Rhan 1 yn ymdrin â chychwyn a diffiniadau.

Mae Rhan 2 yn ymdrin â pha faterion pellach sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig y mae’n ofynnol eu cynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad; y cyfnod amser y mae’r adroddiad yn ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth; y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi’r adroddiad a ffurf yr adroddiad.

Mae rheoliad 2 wedi ei wneud o dan adran 144B(2)(a)(iii) ac mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth iddynt lunio adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad leol, gynnwys asesiad o’r materion eraill hynny sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig yn ardal yr awdurdod lleol, a bennir yn yr Atodlen ac sy’n cynnwys digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth, ansawdd cyffredinol gofal a chymorth, tueddiadau cyfredol neu ddatblygol gofal a chymorth, unrhyw heriau sylweddol ac effaith comisiynu a chyllido.

Mae rheoliad 3 wedi ei wneud o dan adran 144B(2)(a)(i) ac mae’n darparu ar gyfer cyfnod asesu digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth.

Mae rheoliad 4 wedi ei wneud o dan adran 144B(1) ac mae’n darparu ar gyfer yr adegau y mae rhaid i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.

Mae rheoliad 5 wedi ei wneud o dan adran 144B(3) ac mae’n ei gwneud yn ofynnol i’r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad fod mewn fformat electronig.

Mae Rhan 3 wedi ei gwneud o dan adrannau 166(1)(b) a (4)(a) a 168 ac mae’n diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae’r Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ymrwymo i drefniant partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau’r awdurdodau lleol o dan adran 144B.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

Part 1 addresses commencement and definitions.

Part 2 addresses what further matters relating to the provision of regulated services are required to be included in the market stability report; the period of time within which the report considers the sufficiency of provision of care and support; the date by which the report must be published and the report’s form.

Regulation 2 is made under section 144B(2)(a)(iii) and requires local authorities, whilst preparing a local market stability report, to include an assessment of those other matters relating to the provision of regulated services in the local authority area, which are specified in the Schedule and include the sufficiency of provision of care and support, the overall quality of care and support, the current or developing trends of care and support, any significant challenges and the impact of commissioning and funding.

Regulation 3 is made under section 144B(2)(a)(i) and provides for the period of assessment of the sufficiency of provision of care and support.

Regulation 4 is made under section 144B(1) and provides for the times local authorities must prepare and publish their market stability reports.

Regulation 5 is made under section 144B(3) and requires the market stability report to be in an electronic format.

Part 3 is made under sections 166(1)(b) and (4)(a) and 168 and amends the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015. This Part requires local authorities and Local Health Boards to enter into a partnership arrangement for carrying out the local authorities’ functions under section 144B.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 198 (Cy. 46)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Chwefror 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 144B(1), (2)(a) a (3), 166(1)(b) a (4)(a) a 168 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**).

Yn unol ag adran 144B(6) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**3**).

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) Gweler adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.
(**3**) Mae'r cyfeiriad yn adran 196(6)(a) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 198 (W. 46)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Partnership Arrangements (Amendment) and Regulated Services (Market Stability Reports) (Wales) Regulations 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *24 February 2021* |
| *Coming into force* | *1 April 2021* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 144B(1), (2)(a) and (3), 166(1)(b) and (4)(a) and 168 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), makes the following Regulations(**2**).

In accordance with section 144B(6) of that Act, the Welsh Ministers have consulted such persons as they considered appropriate.

A draft of these Regulations was laid before Senedd Cymru under section 196(6)(a) of that Act and has been approved by resolution of Senedd Cymru(**3**).

(**1**) 2014 anaw 4.
(**2**) See section 40 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4) for provision about the procedure that applies to this instrument.
(**3**) The reference in section 196(6)(a) to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

# RHAN 1

Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad" ("*market stability report*") yw'r adroddiad y mae'n ofynnol ei lunio a'i gyhoeddi o dan adran 144B o'r Ddeddf;

ystyr "asesiad poblogaeth" ("*population assessment*") yw'r asesiad y mae'n ofynnol ei gynnal o dan adran 14(1) o'r Ddeddf;

*ystyr* "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

mae i "gofal a chymorth" ("*care and support*") yr un ystyr ag a roddir gan adran 4 o'r Ddeddf;

mae i "gwasanaeth rheoleiddiedig" ("*regulated service*") yr un ystyr ag a roddir gan adran 2(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth" ("*the Partnership Arrangements Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**2**).

# PART 1

General

**Title, commencement and interpretation**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Partnership Arrangements (Amendment) and Regulated Services (Market Stability Reports) (Wales) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2021.

(3) In these Regulations—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

"care and support" ("*gofal a chymorth*") has the same meaning given by section 4 of the Act;

"market stability report" ("*adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad*") means the report which is required to be prepared and published under section 144B of the Act;

"the Partnership Arrangements Regulations" ("*y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth*") means the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015(**1**);

"population assessment" ("*asesiad poblogaeth*") means the assessment which is required to be carried out under section 14(1) of the Act;

"regulated service" ("*gwasanaeth rheoleiddiedig*") has the same meaning given by section 2(1) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**2**).

# RHAN 2

Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad

**Materion eraill sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad**

**2.** Rhaid i adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad gynnwys asesiad o'r materion hynny a bennir yn yr Atodlen.

**Cyfnod asesu digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth**

**3.** Rhaid asesu digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth dros y cyfnod ers cyhoeddi'r asesiad poblogaeth blaenorol.

# PART 2

Market Stability Report

**Other matters to be contained within the market stability report**

**2.** A market stability report must include an assessment of those matters specified in the Schedule.

**Period of assessment of the sufficiency of provision of care and support**

**3.** The sufficiency of provision of care and support must be assessed over the period since the previous population assessment was published.

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299).

(**1**) S.I. 2015/1989 (W. 299).
(**2**) 2016 anaw 2.

**Cyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad**

**4.**—(1) Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad erbyn 1 Mehefin 2022.

(2) Rhaid cyhoeddi adroddiadau dilynol ar sefydlogrwydd y farchnad bob 5 mlynedd ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar sefydlogrwydd y farchnad.

**Ffurf yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad**

**5.** Rhaid cyhoeddi'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad mewn fformat electronig.

# RHAN 3

Diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth

**Diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth**

**6.** Yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, ar ôl rheoliad 18 mewnosoder—

"*Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad*

**Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad**

**18A.**—(1) Rhaid i'r cyrff partneriaeth ar gyfer pob un o'r ardaloedd bwrdd partneriaeth rhanbarthol bennu'r trefniadau ar gyfer cyflawni ar y cyd y swyddogaethau adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddogaethau adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad" yw'r swyddogaethau penodedig a roddir i awdurdodau lleol gan adran 144B o'r Ddeddf(**1**)."

**Publication of market stability report**

**4.**—(1) Local authorities must publish a market stability report by 1 June 2022.

(2) Subsequent market stability reports must be published every 5 years after the date on which the most recent market stability report was published.

**Form of market stability report**

**5.** The market stability report must be published in an electronic format.

# PART 3

Amendment to the Partnership Arrangements Regulations

**Amendment to the Partnership Arrangements Regulations**

**6.** In the Partnership Arrangements Regulations, after regulation 18 insert—

"*Market Stability Reports*

**Market stability reports**

**18A.**—(1) The partnership bodies for each of the regional partnership board areas must specify the arrangements by which they will together carry out the market stability report functions.

(2) In this regulation, "market stability report functions" means the specified functions conferred on local authorities by section 144B of the Act(**1**)."

*Julie Morgan*

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
24 Chwefror 2021

Deputy Minister for Health and Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

24 February 2021

(**1**) Mae swyddogaethau awdurdodau lleol o dan adran 144B o'r Ddeddf yn un o'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sy'n "swyddogaethau penodedig" at ddibenion y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn rhinwedd rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny ac Atodlen 1 iddynt.

(**1**) Local authority functions under section 144B of the Act are one of the social services functions which are "specified functions" for the purposes of the Partnership Arrangements Regulations by virtue of regulation 9 of, and Schedule 1 to, those Regulations.

# YR ATODLEN Rheoliad 2

## Materion eraill sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad

**Digonolrwydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth**

**1.** Asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth sy'n cynnwys unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion a nodir yn yr asesiad poblogaeth diweddaraf.

**Ansawdd cyffredinol gofal a chymorth**

**2.** Asesiad o ansawdd cyffredinol y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan wasanaethau rheoleiddiedig wrth ddiwallu anghenion a chyflawni canlyniadau personol pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'r gofalwyr hynny y mae angen cymorth arnynt.

**Tueddiadau cyfredol neu ddatblygol gofal a chymorth**

**3.** Asesiad o'r tueddiadau cyfredol neu ddatblygol yn y ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth a'u heffaith ar ddigonolrwydd, ansawdd neu sefydlogrwydd y gwasanaethau hynny.

**Heriau**

**4.** Asesiad o unrhyw heriau sylweddol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol i ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth.

**Effaith comisiynu**

**5.** Asesiad o effaith comisiynu a chyllido ar ddigonolrwydd, ansawdd a sefydlogrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth, gan gynnwys dulliau rhanbarthol a defnyddio cronfeydd cyfun.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

# SCHEDULE Regulation 2

## Other matters to be contained in the market stability report

**Sufficiency of provision of care and support**

**1.** An assessment of the sufficiency of provision of regulated services providing care and support which includes any gaps in provision to meet needs identified in the most recent population assessment.

**Overall quality of care and support**

**2.** An assessment of the overall quality of the care and support being provided by regulated services in meeting the needs and achieving the personal outcomes of people who need care and support, and those carers who need support.

**Current or developing trends of care and support**

**3.** An assessment of the current or developing trends in the provision of regulated services providing care and support and their impact upon the sufficiency, quality or stability of those services.

**Challenges**

**4.** An assessment of any significant challenges to current or future sufficiency, quality and stability of the provision of regulated services providing care and support.

**Impact of commissioning**

**5.** An assessment of the impact of commissioning and funding on the sufficiency, quality and stability of the provision of regulated services providing care and support, including regional approaches and the use of pooled funding.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-20753-8

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/198